

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mawrth 2017



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: GWEITHREDU A GWYBODAETH
CATEGORI: ANSAWDD A DIOGELWCH

Teitl: GOSTWNG HEINTIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GOFAL IECHYD (HCAI) ERBYN MIS MAWRTH 2018: C.DIFFICILE, BACTEREMIAS S.AUREUS A BACTEREMIAS E.COLI

Dyddiad dod i ben / Adolygu: 31 Mawrth 2017

I'w Weithredu:

Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau:

Prif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Prif Fferyllwyr Ysbytai

Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Arweinwyr y Rhaglenni HCAI ac AMR
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
Tîmau Diogelu Iechyd

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru:

I'w ddosbarthu i bractisau meddygon teulu,
practisau deintyddol a fferyllwyr cymunedol

Er gwybodaeth;

Llywodraeth Cymru:

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG
Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Arweinwyr Polisi a Phroffesiwn
Tîm Gweithredu AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Tîm Digidol AIGC

GIG Cymru:

Cadeiryddion
Galw Iechyd Cymru

Anfonwr: Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol a Jean White, Prif Swyddog Nyrsio

Enwau Cyswilt yn AIGC Llywodraeth Cymru: Jenny Thorne, Pennaeth, Cangen Polisi HCAI a Diogelwch Gwaed – jenny.thorne@cymru.gsi.gov.uk neu Catherine Cody catherine.cody@cymru.gsi.gov.uk Ffôn: 03000 251443

Dogfennau amgaaedig: Dim

1. Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HCAI) yn achosi niwed y gellir ei osgoi ac maent yn parhau i fod yn fater diogelwch allweddol i gleifion gan arwain at gost ariannol sylweddol i GIG Cymru. Ers mis Ebrill 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i haneru'r gyfradd o heintiau *C.difficile* a bacteremias *MRSA* yn y boblogaeth a'r disgwyliadau yn erbyn llinellau sylfaen 2012-13.
2. Roedd disgwyliad i nifer yr achosion o heintiau *C.difficile* ostwng yng Nghymru rhwng mis Hydref 2016 a mis Mawrth 2017 i gyfradd o ddim mwy na 28/100,000 o'r boblogaeth (26/100,000 o'r boblogaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf). Cyfradd dros dro Cymru gyfan ar gyfer mis Hydref 2016 i fis Chwefror 2017 yw 31.36/100,000 ac mae'n dangos:
 - Bod Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Chwm Taf ar y trywydd iawn i gyflawni'r disgwyliad;
 - Bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro yn agos iawn at gyflawni'r disgwyliad.

Er na fydd pob Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r targed ar gyfer 2016-17, mae cynnydd wedi'i wneud ar lefel Cymru gyfan, ac o gymharu â'r un cyfnod yn y blynyddoedd blaenorol, cafwyd gostyngiad o 9% yn nifer yr achosion.

3. Roedd disgwyliad i nifer yr achosion o heintiau bacteremias *S.aureus* ostwng yng Nghymru rhwng mis Hydref 2016 a mis Mawrth 2017 i gyfradd o ddim mwy na 20/100,000 o'r boblogaeth (15/100,000 o'r boblogaeth ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan). Cyfradd dros dro Cymru gyfan ar gyfer mis Hydref 2016 i fis Chwefror 2017 yw 29.64/100,000 ac mae'n dangos nad oes yr un o'r chwe bwrdd iechyd mwyaf ar y trywydd iawn i gyflawni. O gymharu â'r un cyfnod yn ystod 2015-16, cafwyd cynnydd o tua 14% yn nifer yr achosion ledled Cymru. Fodd bynnag, cyflawnwyd gostyngiad bach yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Chwefror 2017.
4. Rydym yn cydnabod yr heriau parhaus sy'n wynebu byrddau iechyd wrth fynd i'r afael â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Rhaid i fesurau atal a rheoli heintiau yn effeithiol fod yn rhan annatod o'n gwaith ym mhob agwedd ar y gofal a roddir i gleifion mewn lleoliadau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan ein bod yn gweld cynnydd blynyddol yn nifer yr achosion o *E.coli* a bacteremias eraill sy'n adweithio'n negyddol i brofion Gram, organebau sy'n gwrthsefyll sawl cyffur ac ymwrthedd gwrthficrobaidd.
5. Ni fydd modd cyflawni'r gostyngiadau yn yr HCAI hyn hyd nes y bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod lleoliadau gofal sylfaenol a gofal eilaidd yn cydweithio'n agos ar fentrau atal i wella presgripsiynu gwrthficrobaidd. Rydym felly yn disgwyl i arweinwyr gweithredol byrddau iechyd arwain yn gadarn i sicrhau cydweithio rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ac â phartneriaid gofal cymdeithasol er mwyn cyflawni'r gostyngiad erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Rydym am weld cynnydd cyson drwy Gymru.

6. Mae angen i ymdrechion i wella presgripsiynu ganolbwyntio'n benodol ar heintiau'r pibellau anadlu isaf ac uchaf, heintiau'r llwybr wrinol, llid y glust a llid y sinysau.
7. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd barhau i ostwng nifer yr achosion o'r holl HCAI y gellir eu hatal ar gyfer 2017-18 yn ogystal â'r canlynol:
 - **C.difficile:** mae angen cyflawni cyfradd Cymru gyfan o 26/100,000 o'r boblogaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2018
 - **S.aureus bacteraemias:** nid oes cyfradd newydd yn cael ei gosod, ond rydym yn disgwyl i bob bwrdd iechyd gyflawni cyfradd Cymru gyfan o 20/100,000 o'r boblogaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2018

Byddwn hefyd yn pennu cyfradd briodol ar gyfer pob haint gyda byrddau iechyd sydd ar hyn o bryd yn cyflawni, neu sy'n agos at gyflawni'r cyfraddau targed newydd.

8. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gryfhau eu hymdrechion i fynd i'r afael ag **E.coli bacteraemias** – yr organeb fwyaf cyffredin a geir mewn samplau gwaed yng Nghymru. Yn ogystal â chaniatáu i facteria ledaenu o amgylch y corff gan achosi heintiau mewn mannau eraill heblaw am y man gwreiddiol, gall bacteraemias hefyd arwain at sepsis, sioc septig a marwolaeth. Mae angen gwella gofal i atal bacteraemias mewn cleifion sy'n dioddef o anymataliaeth ac sy'n defnyddio cathetr – gan gynnwys cydymffurfio ag arferion a gweithdrefnau Techneg Aseptig Di-gyffwrdd (ANTT).
9. Am y tro cyntaf, rydym felly yn gosod cyfradd gostwng ddisgwyliedig o 67/100,000 o'r boblogaeth i bob un o'r prif fyrddau iechyd eu cyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Ar lefel Cymru gyfan, byddai hyn yn cyfateb i ostyngiad o 10% ar gyfradd 2015-16 o 76/100,000 o'r boblogaeth, ac yn arwain at 244 yn llai o achosion. Mae'r niferoedd gostwng yn y tabl isod yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth 2015 ac maent yn agored i newid pan fydd amcangyfrifon poblogaeth 2016 ar gael yn ddiweddarach eleni.

Bwrdd Iechyd	Cyfradd 2015-16 /100,000 o'r boblogaeth	% y gostyngiad er mwyn cyflawni gostyngiad	Nifer yr achosion yn 2015-16	Uchafswm nifer yr achosion i gyflawni'r disgwyliad	Isafswm y gostyngiad i gyflawni'r disgwyliad
ABM	80	-17%	423	352	-71
AB	68	-1%	394	389	-5*
BC	77	-13%	533	465	-68
CT	67	0%	323	324	0*
C & F	88	-24%	261	198	-63
HDd	96	-30%	369	256	-113
Cymru Gyfan	75	-10%	2,320	2,076	-244

* Byddwn yn pennu cyfradd briodol gyda'r byrddau iechyd hynny sydd eisoes wedi bodloni'r targed hwn, neu sy'n agos at wneud hynny.

10. Bydd y disgwyliad hwn hefyd yn gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymiad o haneru bacteremias sy'n adweithio'n negyddol i brofion Gram (nawr erbyn mis Mawrth 2021) mewn ymateb i argymhelliad Adolygiad O'Neill.
11. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys bacteremias *E.coli* yn ei drefniadau monitro gwell a bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd i helpu i gyflawni'r disgwyliadau o ran gostwng cyfraddau. Bydd yn parhau i ddarparu data rheolaidd i sicrhau bod byrddau iechyd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch eu sefyllfa barhaus mewn perthynas â'r disgwyliadau i ostwng cyfraddau; cynorthwyo ag ymchwiliadau i gyfnodau o gynnydd yn nifer yr achosion; gweithredu fel cyfaill beirniadol; a chefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau a brofwyd mewn mannau eraill.